

Llyfrau defnyddiol

*Llyfrau sydd â chysylltiad â
hawliau plant.*



Comisiynydd
Plant Cymru
Children's
Commissioner
for Wales

Isod mae awgrymiadau o lyfrau sydd â chysylltiad â hawliau. Mae yna lawer mwy o lyfrau sydd â chysylltiad â hawliau wrth gwrs, felly os oes gennych unrhyw awgrymiadau plis rhowch wybod i ni drwy e-bostio sophie.williams@complantcymru.org.uk

Lle bo'n bosib, rydyn ni wedi **uwchleuo'r** llyfrau dwyieithog a chymraeg.

Rydyn ni wedi grwpio'r llyfrau gyda'i gilydd o dan wahanol Erthyglau yn hytrach na Chyfnodau Allweddol. Bydd angen gwirio addasrwydd oedran y llyfrau a chofio i fod yn ymwybodol o'r plant rydych chi'n gweithio gyda nhw a'u profiadau personol.

Noder: Rydyn ni wedi cymryd broliant pob llyfr o beiriant chwilio ar y rhynggrwyd, nid ein barn bersonol ni am y llyfrau yw hyn.

Erthygl 2: Mae'r hawliau hyn gan bob plentyn beth bynnag yw'r sefyllfa. Dylid trin pob plentyn yn deg.

Mae'n iawn bod yn wahanol / It's okay to be different — Todd Parr

Mae Mae'n Iawn Bod yn Wahanol yn cyflwyno negeseuon pwysig am dderbyn, deall a bod yn hyderus, a hynny mewn ffordd glyfar a fformat hygyrch, addas i blant sy'n cynnwys y lliwiau llachar a'r golygfeydd gwirion rydyn ni'n eu disgwyl gan Todd Parr. Bydd y llyfr yma, sydd wedi'i dargedu at blant ifanc sy'n dechrau darllen am y tro cyntaf, yn ysbrydoli plant i ddathlu'r hyn sy'n eu gwneud nhw'n unigryw drwy dderbyn pobl eraill a bod yn hunanhyderus.

Dy wallt yw dy goron / Your hair is your crown — Jessica Dunrod

Darganfyddwch wir liwiau hudolus Cymru, Hope, wrth iddi ddysgu bod pethau hudolus yn digwydd pan fydd ei gwallt Affro hardd yn gwlychu a'i chyrils yn cael eu rhyddhau. Dilynwch Hope wrth iddi gael ei chludo i wlad ryfeddol Gymreig lle mae'n cwrdd â Dewi'r Ddraig, sy'n ei hedfan ar draws Caerdydd ac yn ei chyflwyno i Afrodite y fôr-forwyn.

Teyrnged i dreftadaeth Gymreig a Charibiaidd yr awdures a'n cymdeithas amlddiwylliannol odidog!

My Skin, Your Skin — Laura Henry-Allain MBE

Mae My Skin Your Skin yn llyfr pwerus sy'n helpu plant ac oedolion i gael trafodaethau ystyrlon am hil a gwrth-hiliaeth. Yn bwysicach na dim, mae'r llyfr yn grymuso plant i fod y fersiynau gorau ohonyn nhw'u hunain; i deimlo hunan-gariad, hunan-barch a hunan-werth, beth bynnag yw lliw eu croen.

Ysgrifennwyd y llyfr yma'n benodol gan arbenigwr ar y Blynyddoedd Cynnar sy'n creu cyfryngau plant, sef Laura Henry-Allain MBE, i gefnogi rhieni, athrawon a gofalwyr i egluro beth yw hiliaeth, pam ei fod yn annerbyniol, a beth gall plant ei wneud os ydyn nhw'n ei weld neu'n ei brofi. Mae hefyd yn archwilio pa mor bwysig yw hi bod plant yn dathlu eu llwyddiannau a'u mawredd.

The same but different — Molly Potter

Mae'r llyfr yma'n ymdrin â llawer o ffyrdd rydyn ni'n wahanol, gan gynnwys sut rydyn ni'n edrych, ble rydyn ni'n byw, yr ieithoedd rydyn ni'n eu siarad, sut rai yw ein teuluoedd a beth rydyn ni'n credu ynddo. Mae'n adnodd perffaith ar gyfer dechrau sgysiau pwysig gyda phlant am amrywiaeth a chynhwysiant, gyda phynciau fel hil, anabledd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol a chrefydd. Mae Molly Potter, arbenigwr ar y Blynyddoedd Cynnar ac ABCh, hefyd yn darparu geirfa o dermau a nodiadau i rieni a gofalwyr gan gynnig cyngor ar fynd i'r afael â rhagfarn o'r cychwyn cyntaf.

Gallai'r llyfr yma hefyd gysylltu ag: Erthygl 8, Erthygl 14 ac Erthygl 30

Love makes a family — Sophie Beer

Dim ots a oes gyda chi ddwy fam, dau dad, un rhiant, neu un o bob un, un peth sy'n gwneud teulu'n deulu ... a CHARIAD yw hwnnw.

Gallai'r llyfr yma hefyd gysylltu ag: Erthygl 9, Erthygl 20, Erthygl 21

Erthygl 9: Mae gen i hawl i fyw gyda theulu sy'n gofalu amdana i

Mam Lan a Lawr / Up and Down Mum — Summer Macon

Mae byw gyda Mam fel mynd i fyny ac i lawr ar reid mewn parc antur. Ar adegau, mae hi'n llawn cyffro ac egni, ac ar adegau eraill, mae hi'n flinedig ac yn dawel. Ond mae hi bob amser yn fam i fi, ac rydyn ni'n rhannu'r reid. I blant sy'n cael eu magu gan riant sydd ag anhwylder deubegynol, mae bywyd yn gallu bod yn llawn pryder ac ansicrwydd. Gyda chymorth gwybodaeth glir a syml, mae'r stori yma'n ein helpu i ddeall achosion anhwylder deubegynol a sut gallwn ni ddysgu byw gyda rhywun sydd ag anhwylder o'r fath.

Siwmpwr Mam / Mum's Jumper — Jayde Perkin

Os yw Mam wedi mynd, sut mae cario ymlaen? Mae gweld ei heisiau hi'n teimlo fel cwmwl tywyll sy'n eich dilyn chi o gwmpas, neu fel nofio at lan sydd byth yn dod yn nes. Ond mae atgofion fel siwmpwr, gallwch chi eu cofleidio a'u gwisgo nhw. Ac efallai fod siwmpwr Mam yn ffordd o'i chadw hi'n agos. Llyfr syml, teimladwy a thwymgalon i unrhyw un sy'n ymdopi â cholled.

The Great Big Book of Families — Mary Hoffman

Mae'r drysorfa hwyliog a difyr yma'n cynnwys pob math o deuluoedd a'u bywydau gyda'i gilydd. Mae pob pâr o dudalennau'n canolbwyntio ar un agwedd ar fywyd cartref — o dai a gwyliau, i ysgolion ac anifeiliaid anwes, i deimladau a choed teulu.

Cysylltiadau â Hawliau: Erthygl 8, Erthygl 19, Erthygl 21

Picnic in the Park - Joe Griffith a Tony Pilgrim

Mae "Picnic in the Park" yn adrodd hanes picnic pen-blwydd Jason a'i westeion. Wrth wneud hynny, mae'n cyflwyno plant i amrywiaeth o strwythurau teuluol, gan gynnwys teuluoedd dau riant ac un rhiant; teuluoedd mabwysiadol a theuluoedd maeth; teuluoedd hoyw a lesbiaidd; a llys-deuluoedd. Mae hefyd yn dangos ystod amrywiol o oedolion a phlant. *Mae'r llyfr yma hefyd yn cysylltu ag Erthygl 20 a 21.*

The Family Book — Todd Parr

Mae The Family Book yn dathlu'r cariad rydyn ni'n ei deimlo tuag at ein teuluoedd a'r holl fathau gwahanol o deuluoedd sydd. Dim ots oes gyda chi ddwy fam neu ddau dad, teulu mawr neu deulu bach, teulu taclus neu deulu anniben, mae Todd Parr yn rhoi sicrwydd i ddarllenwyr, dim ots pa fath o deulu sydd gyda chi, bod pob teulu yn arbennig yn ei ffordd unigryw ei hunan.

The Memory Tree — Britta Teckentrup

Mae Fox wedi byw bywyd hir a hapus yn y goedwig, ond nawr mae wedi blino. Mae'n mynd i orwedd yn ei hoff lannerch, ac yn cwmpo i gysgu am byth. Cyn bo hir, mae ffrindiau Fox yn dechrau ymgynnull yn y llannerch. Fesul un, maen nhw'n adrodd straeon am yr eiliadau arbennig rannon nhw gyda Fox. Ac wrth iddyn nhw rannu'u hatgofion, mae coeden yn dechrau tyfu, gan dyfu a chryfhau gyda phob atgof, gan gysgodi a gwarchod holl anifeiliaid y goedwig, yn union fel y gwnaeth Fox pan oedd yn fyw.

Missing Mummy: Llyfr am Brofedigaeth — Rebecca Cobb

Dyma lyfr hynod yn ymdrin â cholli rhiant o safbwynt plentyn, wedi'i ysgrifennu a'i ddarlunio gan yr awdur-ddarlunydd dawnus Rebecca Cobb. Mae'r testun sy'n taro'r nodyn perffaith a'r gwaith celf

atgofus yn archwilio'r lluo o emosiynau y gall plentyn mewn profedigaeth eu profi, o ddicter i euogrwydd ac o dristwch i ddriswch. Ac yn hollbwysig, mae'r llyfr hefyd yn canolbwyntio ar y positif — y gydnabyddiaeth bod y plentyn yn dal i fod yn rhan o deulu, a bod ei atgofion am ei fam yn rhai i'w trysori.

Erthygl 12: Mae gen i hawl i gael fy nghlywed a fy nghymryd o ddifri.

Weithiau dwi'n teimlo'n heulog / Sometimes I Feel Sunny — Gillian Shields

Dilynwch bedwar ffrind hoffus drwy eu diwrnod, ac archwiliwch yr emosiynau sy'n digwydd yn naturiol ym mywyd pob plentyn ifanc. Ffordd wych o leddfu hwyliau drwg ac egluro bod pawb yn teimlo emosiynau cryfion weithiau.

Cyfes llyfrau 'Big Bright Feelings' — Tom Percival - (Mae fersiynau Cymraeg o rai o'r llyfrau yma ar gael)

Cyfes teimladau mawr bach / Little big feelings series of books — Campbell Books

Gyda darluniau hyfryd gan Marie Paruit, dyma'r llyfr perffaith i rieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol ei rannu gyda phlant ifanc sydd newydd ddechrau adnabod eu teimladau a datblygu eu deallusrwydd emosiynol. Bydd esboniadau, awgrymiadau a chynghorion gan yr arbenigwr Blynyddoedd Cynnar Dr Janet Rose yn rhoi'r holl arweiniad ychwanegol sydd ei angen arnoch.

Awgwstws a'i Wên / Augustus and his smile — Catherine Rayner

Roedd Awgwstws y teigr yn drist. Roedd wedi colli ei wên. Felly ar ôl ymestyn ei hunan yn fawr fel teigr, aeth ati i chwilio amdani. Yn y llyfr hyfryd, hynod yma, mae'r awdur newydd a'r darlunydd dawnus Catherine Rayner yn dathlu prydferthwch y byd, a'r hapusrwydd syml sy'n dod i ni pan fyddwn ni'n agor ein llygaid iddo.

Beth sy'n digwydd yn fy mhen? / What's going on inside my head? — Molly Porter

Drwy sôn am hunandelwedd gadarnhaol, deallusrwydd emosiynol, perthnasoedd a meddwlgarwch, bydd y llyfr yma'n helpu plant i ddatblygu arferion iach a strategaethau ymdopi da o'r cychwyn cyntaf. Wedi'i gyflwyno mewn ffordd gynnes, gyfeillgar i blant, ond heb ddim lol, bydd yn helpu i sefydlu sylfeini cadarn ar gyfer lles pob plentyn nawr ac yn y dyfodol. Perffaith ar gyfer dechrau sgysiau gyda phlant am eu hiechyd meddwl ac emosiynol.

Hapus / Happy — Emma Dodd

Mae'r gwdi-hw yn hoffi chwarae gemau, trio pethau newydd a chanu, ond beth sy'n ei wneud yn hapusach na hapus? Cwtsho gyda'i fam a sibrawd, "Rwy'n dy garu di".

Y Llew tu mewn / The Lion Inside — Rachel Bright a Jim Field

Stori ysbrydoledig sy'n dangos bod ganddon ni i gyd lew y tu mewn i ni!

Cwmwl Cai — Nia Parry

Weithiau mae Cai'n teimlo'n hapus ac ar ben ei ddigon, dro arall mae'n teimlo bod yna gwmwl du mawr yn ei ddilyn o gwmpas. Mae Cai yn fachgen bach sy'n cael pyliau tywyll o anobaith lle mae'n teimlo o dan straen. Mae yna lawer o blant fel Cai allan yna. Mae'r llyfr yma'n normaleiddio'r teimladau anodd yma ac yn cynnig syniadau ymarferol i blant.

The Colour Monster — Anna Llenas - (fersiwn Gymraeg 'Yr Anghenfil Lliwgar' ar gael ar-lein)

Un diwrnod, mae'r Anghenfil Lliwgar yn deffro ac mae'n teimlo'n ddryslyd iawn. Mae ei emosiynau ym mhobman; mae'n teimlo'n flin, yn hapus, yn ddigyffro, yn drist ac yn ofnus i gyd ar yr un pryd! I'w helpu, mae merch fach yn dangos iddo beth mae pob teimlad yn ei olygu drwy liw. Archwiliad tyner o deimladau ar gyfer yr hen a'r ifanc fel ei gilydd.

Noder: Mae ganddon ni weithgareddau sy'n ymwneud â'r anghenfil lliwgar yn ein [hadnodd Blynyddoedd Cynnar](#).

Pryder Glain / Ruby's Worry — Tom Percival

Mae Glain wrth ei bodd yn bod yn Glain. Tan iddi ddod o hyd i bryder un diwrnod. Ar y dechrau, dydy e ddim yn bryder mawr, ac mae'n iawn, ond yna mae'n dechrau tyfu. Mae'n tyfu'n fwy ac yn fwy bob dydd ac mae'n gwneud Glain yn drist. Sut gall Glain gael gwared arno a theimlo fel hi ei hunan unwaith eto?

The Great Big Book of Feelings — Mary Hoffman

Mae'r llyfr yn agor gyda'r cwestiwn: Sut wyt ti'n teimlo heddiw? Ac mae hyn yn arwain at gyflwyno ystod eang o deimladau, gan gynnwys: Hapus, Trist, Cyffrous, Wedi diflasu, Chwilfrydig, Blin, Diogel, Hyderus ayyb

Mae'r dudalen olaf yn trafod Teimlo'n Well gan fod rhannu a siarad am deimladau yn ein helpu i deimlo'n well. *Mae'r llyfr yma hefyd yn cysylltu ag: Erthygl 3 Dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i chi bob amser.*

The Feelings Book — Todd Parr

Weithiau dw i'n teimlo'n wirion.

Weithiau dw i'n teimlo fel bwyta pizza i frecwast.

Weithiau dw i'n teimlo'n ddewr.

Weithiau dw i'n teimlo fel rhoi cynnig ar rywbeth newydd...

Mae *The Feelings Book* yn dangos yr ystod eang o hwyliau rydyn ni i gyd yn eu profi, a hynny mewn ffordd fywiog iawn. Bydd plant ac oedolion yn gwerthfawrogi deallusrwydd hynod Todd Parr wrth iddo roi sylw arbennig i'r emosiynau rydyn ni i gyd yn eu teimlo, sy'n newid yn barhaus ac weithiau'n hollol ddisynnwyr. Bydd y llyfr yma, sydd wedi'i dargedu at blant ifanc sy'n dechrau darllen am y tro cyntaf, yn ysbrydoli plant i drafod eu lluo o deimladau, drwy fformat hygyrch sy'n addas i blant a gyda'r lliwiau llachar a'r golygfeydd gwirion rydyn ni'n eu disgwyl gan Todd Parr.

Feelings — Libby Walden

Archwiliwch fyd yr emosiynau gyda'r llyfr sbecian-drwy'r-twill trawiadol yma. Mae testun telynegol a darluniau hudolus yn dod â phob emosiwn yn fyw i helpu plant i ddeall natur unigryw a natur hollgyffredinol teimladau.

When sadness comes to call — Eva Eland

Yn *When Sadness Is at Your Door*, mae Eva Eland yn ymdrin â'r teimlad yma fel pe bai'n ymwelydd, a hynny mewn ffordd wych. Mae hi'n rhoi siâp a wyneb iddo, ac yn annog y darllynydd i roi enw iddo, sydd i gyd yn helpu i'w egluro a'i ddatgysylltu oddi wrthon ni'n hunain. Mae hi'n awgrymu gweithgareddau i'w gwneud gyda fe, fel eistedd yn dawel, tynnu lluniau, a mynd allan am dro. Yr hyn sy'n hyfryd am y dull yma yw'r parch sydd gan y llyfr at y teimlad, ac absenoldeb naratif sy'n annog y darllynydd i "ddod drosto" neu sy'n awgrymu ei fod yn beth "drwg", dau lwybr sy'n gallu annog pryder.

Morris and the Bundle of Worries — Jill Seeney

Mae gan bob plentyn ifanc bryderon, ond mae'n bosib bod gan blant sy'n derbyn gofal fwy o bryderon na'r rhan fwyaf gan nad oes ganddyn nhw'r sicrwydd o fywyd teuluol parhaol, sefydlog. Yn y llyfr lluniau lliwgar yma i blant bach, mae Morris the Mole yn darganfod bod siarad am ei broblemau, a wynebu ei ofidiau gyda chymorth eraill, yn fwy o help na chuddio'i ofnau. *Mae'r llyfr yma hefyd yn cysylltu ag Erthygl 20 ac Erthygl 21*

Erthygl 14: Mae gen ti'r hawl i ymarfer dy grefydd dy hunan, cyn belled nad wyt ti'n atal pobl eraill rhag arfer eu hawlau.

Hats of faith — Medeia Cohan-Petrolino

Mae'r llyfr yma'n gyflwyniad darluniadol hardd i'r arferiad cyffredin o orchuddio'r pen. Gan ddefnyddio terminoleg gywir a delweddau lliwgar, mae Hats of Faith yn helpu i addysgu a pharatoi plant ifanc ar gyfer ein byd modern diwylliannol amrywiol. Mae'n annog sgwrs gynnar ac agored rhwng rhieni a phlant.

The Proudest Blue: Stori am Hijab a Theulu — Ibtihaj Muhammad

Dyma ddiwrnod cyntaf Faizah yn yr ysgol, a diwrnod cyntaf ei chwaer hŷn Asiya o wisgo hijab — wedi'i wneud o ddefnydd glas hardd. Ond nid pawb sy'n gweld hijab yn brydferth. Yn wyneb geiriau niweidiol, dryslyd, a fydd Faizah yn dod o hyd i ffyrdd newydd o fod yn gryf?

Dyma stori galonogol, gyda themâu hollgyffredinol am brofiadau newydd, y cwlwm di-dor rhwng chwirydd ac am fod yn falch o bwy ydych chi, gan yr enillydd medal Olympaidd Ibtihaj Muhammad.

Erthygl 19: Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy mrifo neu fy nhrin yn wael

Arwyr Go lawn / Real Superheroes — Julia Seal

Mae gan rai arwyr glogyn a phartner ffyddlon, ond faint o'r arwyr yma sydd wedi'ch achub chi erioed?

Dyma neges o ddiolch i'r gweithwyr hanfodol sy'n ein helpu ni bob dydd. O staff archfarchnadoedd a diffoddwyr tân i feddygon a nyrsys, mae'r llyfr lluniau hyfryd yma'n dathlu'r arwyr bob dydd dewr sy'n cadw ein byd i droi drwy gyfnod anodd.

The Boy in the Dress — David Walliams

Mae Dennis, 12 oed, yn byw gyda'i frawd mawr John a'u tad. Mae Dennis yn gweld eisiau ei fam, sydd wedi eu gadael. Pan mae Dennis yn arbrofi gyda gwisgo dillad merched a hyd yn oed yn mynd i'r ysgol mewn ffrog, mae'n cael ei wawdio a'i bryfocio gan y plant eraill a'i ddiarddel gan y Pennaeth. Pan mae'n chwarae mewn gêm bêl-droed yn gwisgo ffrog, yn hytrach na'i git pêl-droed arferol, mae pobl yn ei weld mewn goleuni gwahanol ac mae ei stori'n troi cornel. Stori ysgafn sy'n archwilio perthnasoedd teuluol, rhyddid i ddewis a goddefgarwch o wahaniaethau.

Wonder — R.J. Palacio

Mae gan August Pullman (Auggie) anffurfiad wyneb difrifol ac mae'n cael ei addysgu gartref tan ei fod yn 10 oed, pan fydd yn dechrau mynd i'r ysgol. Nid o safbwynt Auggie yn unig mae'r stori'n cael ei hadrodd, ond hefyd drwy lygaid ei deulu a'i ffrindiau — gan ddilyn ei ofnau a'r heriau sy'n ei wynebu wrth iddo ddod i delerau ag ymateb plant eraill i'r ffordd mae'n edrych. Mae'n daith emosiynol ac yn llyfr gwych i ddechrau trafodaethau am dderbyn pobl fel maen nhw, empathi a phwysigrwydd cyfeillgarwch.

Bad Girls — Jacqueline Wilson

Mae Mandy yn 10 oed ac yn cael ei bwlio yn yr ysgol, ond mae'n ffurfio cyfeillgarwch gyda merch hŷn sy'n gwybod beth yw beth ar y strydoedd ac sy'n cael ei maethu gan gymydog. Mae Tanya yn 14 oed ac mae fel petai hi bob amser mewn trwbwl. Dydy rhieni goramddiffynnol Mandy ddim yn awyddus iddyn nhw fod yn ffrindiau. Mae'r stori yma'n ymdrin yn sensitif â materion yn ymwneud â chyfeillgarwch, perthnasoedd teuluol, teyrngarwch a derbyn.

All the Things that Could Go Wrong — Justine Laismith

Mae Dan yn flin. Does dim byd wedi bod yr un peth ers i'w frawd mawr adael, ac mae Dan yn ymdopi drwy fynd ar ôl y targed agosaf a gwannaf: Alex. Mae Alex yn ei chael yn anodd. Mae ei OCD difrifol yn golygu bod gadael y tŷ yn anodd iddo, yn enwedig pan mae Dan a'i gang yn aros amdano yn yr ysgol. Yna mae mamau'r bechgyn yn trefnu iddyn nhw gwrdd a gorffen adeiladu'r rafft ddechreuodd Dan gyda'i frawd. Dau elyn wedi'u gorfodi gyda'i gilydd drwy gydol y gwyliau ysgol — does bosib bod hyn yn gofyn am drwbwl?

Erthygl 20: Mae gen i hawl i gymorth ac amddiffyniad arbennig os na alla i fyw gyda fy ngheulu fy hunan

Erthygl 21: Mae gen i hawl i'r gofal gorau os ca i fy mabwysiadu

We belong together: a book about adoption and families — Todd Parr

Rydyn ni'n perthyn i'n gilydd oherwydd....

Roedd angen cartref arnat ti

Roedd gen i un i'w rannu

Nawr, rydyn ni'n deulu

Llyfr sy'n rhoi sylw i Fabwysiadu

Delly Duck: Why a little chick couldn't stay with his birth mother. Llyfr gofal maeth a mabwysiadu i blant — Holly Marlow

Pan mae Delly Duck yn dodwy wy, mae hi'n edrych ymlaen iddo ddeor. Ond dydy hi ddim wir yn gwybod sut i gadw wy yn ddiogel, na sut i ofalu am ei chyw pan fydd yn deor. Cipolwg ar sut mae gŵydd bryderus yn ceisio helpu Delly i ddysgu sut i ofalu am ei chyw, yn y stori fabwysiadu deimladwy yma.

We love you hundreds and thousands: Llyfr lluniau i blant am ofal maeth a mabwysiadu — Dara Read

Mae We Love You Hundreds and Thousands yn galluogi plant sy'n cael eu maethu a'u mabwysiadu i fframio eu hunaniaeth mewn ffordd gadarnhaol o oedran ifanc iawn. Mae'r stori fywiog a theimladwy yma'n ymwneud â pherthyn a bod ag ymdeimlad cryf o'n hunan, wedi'i hysgrifennu gan rywun gafodd ei mabwysiadu sydd bellach yn fam.

Nod y llyfr yw hybu ymdeimlad cryf o ddiogelwch a hunanhyder mewn plant sy'n cael eu maethu a'u mabwysiadu. Yn ganolog iddo mae neges arbennig iddyn nhw — mae pobl yn dy garu di'n fawr.

Mae'r llyfr lluniau unigryw yma i blant hefyd yn ffenest ar fywyd teuluol amrywiol ac yn gipolwg ar y cwlwm arbennig rhwng plentyn a'i rieni maeth neu fabwysiadol. Bydd yn cefnogi rhieni, teuluoedd, ffrindiau, ystafelloedd dosbarth a chymunedau i siarad am fabwysiadu a gofal maeth mewn ffordd agored a chariadus.

Elfa and the box of Memories — Michelle Bell

Mae'n bosib y bydd gan blant sy'n derbyn gofal atgofion mwy anodd na'r rhan fwyaf, oherwydd gwahanu a cholled a digwyddiadau trawmatig a allai fod wedi digwydd. Yn y llyfr lluniau hyfryd yma, mae Elfa'r elffant yn darganfod bod rhannu ei hatgofion a chofio'r pethau da ddigwyddodd yn fwy defnyddiol na'u cadw o dan glo.

The story of Tracey Beaker — Jacqueline Wilson

Mae cyfres hynod boblogaidd Jacqueline Wilson o lyfrau yn cynnwys merch 10 oed â dychymyg gwyllt a thymher fer sy'n byw mewn cartref plant ac a hoffai gael ei chartref ei hunan, wedi'u hadrodd yng ngeiriau Tracy ei hunan. Teimladwy a doniol.

Nutmeg Gets Adopted — Judith Foxon

Hanes gwiwer fach goch o'r enw Nutmeg, a'i frawd a'i chwaer iau sy'n mynd drwy broses o wahanu, gofal maeth ac yna'n mynd i fyw gyda theulu mabwysiedig newydd pan nad yw eu mam yn gallu gofalu amdany'n nhw a'u cadw nhw'n ddiogel.

The Most Precious Present in the World — Becky Edwards

Mae gwallt a lliw llygaid Mia yn wahanol i'w mam a'i thad. Pam? Mewn sgwrs rhwng merch fach a'i mam fabwysiadol, mae'r llyfr syml, calonogol yma'n archwilio rhai o'r cwestiynau mae plant mabwysiedig yn eu gofyn.

A Safe Place for Rufus — Jill Seeney

Mae Rufus y gath yn byw gyda theulu sy'n gofalu amdano, yn rhoi ei hoff fwydydd iddo ac yn rhoi llawer o fwythau iddo. Mae'n teimlo'n hapus ac yn ddiogel, yn enwedig pan mae'n gorwedd ar ei hoff glustog

las. Ond doedd Rufus ddim yn teimlo fel hyn erioed. Doedd y teulu roedd Rufus yn arfer byw gyda nhw ddim yn garedig wrtho o gwbl. Mae meddwl am ei orffennol yn ei wneud yn grac ac yn drist ac mae Rufus yn cael trafferth dianc rhag ei atgofion a dod o hyd i le diogel lle gall ymlacio a bod yn fe'i hunan.

The Blanket Bears — Samuel Langley-Swain

Stori hygyrch, gynnes, wedi'i hysgrifennu gan riant mabwysiadol, yn canolbwyntio ar ddwy arth ifanc sy'n cael eu hunain allan yn yr oerfel, ar eu pen eu hunain, ac sy'n cychwyn ar eu taith i gael eu mabwysiadu gan eu teulu am byth newydd. Mae'r stori'n cydnabod y cymysgedd o emosiynau y gall plant sy'n cael eu mabwysiadu eu teimlo — yr ofn a'r gofid, yn ogystal â'r llawenydd o brofi cariad a charedigrwydd gan eu gofalwyr newydd.

Erthygl 22: Os wyt ti'n ffoadur, mae gen ti'r un hawliau ag unrhyw blentyn arall yn y wlad.

Y Crwt yn y Cefn / The boy at the back of the class — Onjali Rauf

Roedd cadair wag yn arfer bod yng nghefn fy nosbarth i, ond nawr mae bachgen newydd o'r enw Ahmet yn eistedd ynddi.

Mae'n naw oed (yn union fel fi), ond mae'n rhyfedd iawn. Dydy e byth yn siarad a byth yn gwenu, a dydy e ddim yn hoffi losin — dim hyd yn oed sherbets lemon, fy hoff losin i!

Ond yna fe ddysgais i'r gwir: Dydy Ahmet ddim yn rhyfedd iawn o gwbl. Ffoadur yw e sydd wedi rhedeg i ffwrdd o Ryfel. Rhyfel go iawn. Gyda bomiau a thân a bwlls sy'n brifo pobl. Wrth ddod i wybod mwy amdano, dw i'n teimlo fwy a mwy fy mod i eisiau ei helpu.

Dyna lle mae fy ffrindiau gorau Josie, Michael a Tom yn dod i mewn. Achos, gyda'n gilydd, rydyn ni wedi llunio cynllun. . .

The Journey — Francesca Sanna

Sut brofiad yw gorfod gadael popeth ar eich ôl a theithio milltiroedd lawer i rywle anghyfarwydd a dieithr? Cychwynnodd mam a'i dau blentyn ar daith o'r fath; taith yn llawn ofn yr anwybod, ond hefyd yn llawn gobaith. Yn seiliedig ar ei hymwneud â phobl sy'n cael eu gorfodi i chwilio am gartref newydd, ac wedi'i adrodd o safbwynt plentyn ifanc, mae Francesca Sanna wedi creu llyfr hardd a sensitif sy'n llawn arwyddocâd i'n cyfnod ni.

My name was Hussein — Hristo Kyuchukov

Yn cynnig stori i ddarllenwyr am ragfarn hiliol a chrefyddol wrth i fachgen ifanc o'r enw Hussein gael ei orfodi i newid ei enw ac i'w deulu gael eu gorfodi i newid eu ffyrdd pan fydd grŵp o filwyr yn gorymdeithio i'w pentref bychan ym Mwlgaria ac yn cipio hawliau'r holl Fwslimiaid sy'n byw yno.

Welcome to Nowhere — Elizabeth Laird

Ganwyd a magwyd Omar, sy'n ddeuddeg oed, a'i frodyr a'i chwiorydd yn ninas hardd a phrysur Bosra yn Syria. Does dim ots gan Omar am wleidyddiaeth — y cyfan mae e ei eisiau yw tyfu i fod yn ddyn busnes llwyddiannus fydd yn gwneud ei farc ar y byd. Ond pan fydd ei frawd hŷn clyfar, Musa, yn cymysgu gyda chriw o ymgyrchwyr gwleidyddol ifanc, mae popeth yn newid . . .

When Stars Are Scattered — Victoria Jamieson ac Omar Mohamed (Nofel Graffig)

Stori wir dorcalonnus am fywyd mewn gweryll ffoaduriaid yn Kenya fydd yn adfer eich ffydd bod diwedd hapus yn gallu digwydd mewn bywyd go iawn.

Mae Omar a'i frawd Hassan, dau fachgen o Somalia, wedi treulio cyfnod hir yng ngweryll ffoaduriaid Dadaab. Mae'r ddau wedi'u gwahanu oddi wrth eu mam, a dieithryn cyfeillgar sy'n gofalu amdany'n nhw. Dydy bywyd yn y gweryll ddim bob amser yn hawdd. Mae bod eisiau bwyd yn brofiad cyson... ond mae yna chwarae pêl-droed i edrych ymlaen ato, a nawr mae siawns y bydd Omar yn cael mynd i'r ysgol...

Mae'r stori wir anhygoel yma, gyda diwedd glo teimladwy a llawen, yn dod yn fyw diolch i ddarluniau syfrdanol Victoria. Mae'r llyfr yn darlunio bywyd mewn gweryll ffoaduriaid i blant 8-12 oed yn berffaith.

King of the sky — Nicola Davies

Gan ddechrau bywyd newydd mewn gwlad newydd, mae bachgen ifanc yn teimlo ar goll ac yn unig — nes iddo gwrdd â hen ddyn sy'n cadw colomennod rasio. Gyda'i gilydd, maen nhw'n rhoi eu gobeithion ar ras ar draws Ewrop a'r aderyn arbennig maen nhw'n credu all ei hennill: brenin yr awyr.

Erthygl 23: Os oes gen i anabledd, mae gen i hawl i addysg a gofal arbennig.

Anableddau — Lousie Spilsbury

Mae'r gyfres Cwestiynau a Theimladau Ynghylch... yn annog plant i ystyried eu hemosiynau a thrafod pynciau sy'n gallu bod yn anodd eu deall. Mae'r llyfr yn cynnwys awgrymiadau a gweithgareddau ymarferol yn ogystal â chynghor i rieni ac athrawon.

Drwy fy llygaid / Through the eyes of me — Jon Richards

Llyfr lluniau lliwgar a phrydferth i blant yw Drwy fy Llygaid, sy'n rhoi cipolwg ar fyd plentyn ag awtistiaeth. Bydd y darllenwyr yn cwrdd â Kya sy'n 4 oed ac sydd wrth ei bodd yn rhedeg, yn darllen, yn edrych ar sticeri ac yna'n eu rhwygo. Cyfle i ddysgu pam mae Kya'n gwneud rhai pethau, ddim yn hoffi rhai pethau, ac yn wir, yn caru pethau eraill. Mae'r llyfr gwych yma'n arf delfrydol a deniadol er mwyn addysgu plant am awtistiaeth ac am fywyd fel plentyn ag awtistiaeth.

Erthygl 24: Mae gen ti'r hawl i ddŵr glân, bwyd iach, amgylchedd glân a gofal iechyd da.

Y lindysyn llwglyd iawn / The Hungry Caterpillar — Eric Carle

Y Goeden Ioga ac Y Wariar Bach — Leisa Mererid

Llyfr stori a llun sy'n cyflwyno symudiadau ioga syml i blant ac oedolion. Dyma lyfr annwyl sy'n mynd â ni i fyd natur a chylch bywyd yr hedyn wrth iddo egino a thyfu'n goeden fawr gref a thyfu dail. Buan iawn daw'r hydref a'i wynt i chwythu'r hadau ac ail gychwyn ar gylich bywyd natur unwaith eto.

Mindful Monsters — Fae Sylva

Mae'r Angenfilod Enfys i gyd yn Angenfilod Ystyriol hefyd, yn parchu ei gilydd, fel pob anghenfil da. Mae'r Angenfilod Enfys yn ôl, i'ch dysgu sut i fod yn ystyriol. Os ydych chi eisiau tyfu i fyny mor heini, mor iach, mor hapus ac mor gryf ag anghenfil, ymunwch â nhw yn eu campau lliwgar.

Monsters Don't Eat Broccoli — Barbara Jean Hicks

Beth mae angenfilod yn ei fwyta? Does gan y weinyddes yn y bwyty yma ddim syniad. Dydy angenfilod ddim yn bwyta broccoli!

Pam ar y ddaear mae hi'n meddwl ein bod ni? Yn y reiat o lyfr lluniau yma sydd wedi'i ysgrifennu gan Barbara Jean Hicks a'i ddarlunio gan Sue Hendra, mae angenfilod yn mynnu nad ydyn nhw'n hoffi broccoli. Byddai'n well ganddyn nhw gnoi ar ambell dractor, llong ofod neu ddwy, tameidiau trelar tyner, neu olwynion lwmp o lori. Ond brensiach, mae'r coed maen nhw'n eu cnoi yn edrych yn debyg iawn i frocoli. Efallai nad yw llyisiau cynddrwg wedi'r cyfan! Bydd y llyfr doniol yma'n siŵr o wneud i'r rhai bach chwerthin yn uchel, a hyd yn oed ofyn am ambell fyrbryd anghenfil iach eu hunain.

Mae'r llyfr yma hefyd yn cysylltu ag Erthygl 3: dylai oedolion wneud yr hyn sydd orau i chi bob amser.

The Worrysaurus — Rachel Bright

Mae'n ddiwrnod hyfryd ac mae Worrysaurus wedi cynllunio picnic arbennig. Ond mewn dim o dro mae pilipala o bryder yn dechrau hedfan yn ei fol...Beth os yw e heb ddod â digon i'w fwyta? Beth os bydd e'n mynd ar goll yn y jyngl? Beth os bydd hi'n bwrw glaw?! Gydag ychydig o help gan ei fam, mae Worrysaurus yn dysgu ffordd o leddfu'r pilipalod pryderus, dychryn ei ofnau i ffwrdd, a dod o hyd i heddwch a hapusrwydd yn yr eiliad dan sylw.

Erthygl 26: Mae gen ti hawl i ddŵr glân, bwyd iach, amgylchedd glân a gofal iechyd da.

It's a no-money day - Kate Milner

Mae mam yn gweithio'n galed iawn, ond heddiw does dim arian ar ôl a dim bwyd yn y cypyrddau. Mae'n rhaid i Mam fynd i'r banc bwyd lleol, ac mae'n teimlo cywilydd bod rhaid iddyn nhw ddibynnu ar garedigrwydd pobl eraill, ond mae ei merch fach yn dal i allu gweld yr holl ddaioni yn ei diwrnod, fel darllen a thynnu lluniau, a hyd yn oed y banc bwyd. Efallai y bydd pethau'n wahanol un diwrnod, ond am y tro maen nhw'n mynd ati gyda'i gilydd i sirioli hyd yn oed y dyddiau tywyllaf.

Erthygl 30: Mae gen i hawl i siarad fy iaith fy hunan ac i ddilyn ffordd o fyw fy nheulu.

Y ferch newydd / The new girl — Nicola Davies

Mae Kiku yn cychwyn ysgol newydd mewn tref newydd ryfedd. Mae'r plant yn ei dosbarth yn anghyfeillgar tuag ati ac yn gwrthod ei chynnwys. Mae Kiku yn helpu i gyflwyno'r plant eraill i'r grefft o blygu papur, gan greu llawer o wahanol fathau o flodau a'u cyflwyno i'w diwylliant, sy'n helpu i weddnewid agwedd y plant tuag ati a'u gweledigaeth ohonyn nhw'u hunain a'u bywydau eu hunain, yn y stori ysbrydoledig yma.

Cysylltiedig â hawliau yn gyffredinol

I have the right to be a Child - Alain Serres

Adnodd addysgu aml-haenog ar gyfer ysgolion cynradd y gall plant ei ddarllen ac ymateb iddo ar eu lefelau eu hunain yw 'I Have the Right to Be a Child'. Llyfr gwych ar gyfer trafodaeth yn yr ystafell ddosbarth neu gartref ar gymhlethdodau'r term hawliau a'r cwestiynau mawr sy'n codi am ystyr bod â hawliau yn y byd rydyn ni'n byw ynddo heddiw. Nodiadau athrawon a syniadau am weithgareddau ar gael gan Amnest Rhyngwladol a gwefan y cyhoeddwr.

Malala's Magic Pencil - Malala Yousafzai

Fel plentyn ym Mhacistan, gwnaeth Malala ddymuniad am bensel hud y gallai hi ei defnyddio i ail-lunio realiti. Byddai hi'n ei defnyddio er daioni; i roi anrhegion i'w theulu, i ddileu'r aroglau sy'n dod o'r domen sbwriel ger ei thŷ.

Wrth iddi dyfu'n hŷn, roedd Malala'n dymuno pethau mwy a mwy. Roedd hi'n gweld byd oedd angen ei drwsio. A hyd yn oed pe na bai hi byth yn dod o hyd i bensel hud, sylwedolodd Malala y gallai barhau i weithio'n galed bob dydd er mwyn gwireddu ei dymuniadau.

Mae'r llyfr lluniau hardd yma'n adrodd stori Malala, yn ei geiriau ei hunan, wrth gynulleidfa ifanc ac yn rhoi cyfle iddyn nhw weld y bydolwg a'i galluogodd hi i ddal ei gafael mewn gobaith ac i sicrhau bod ei llais yn cael ei glywed hyd yn oed yn yr amseroedd anoddaf.

Mae'r llyfr yma'n cysylltu â nifer o hawliau plant: Erthygl 2, Erthygl 12, Erthygl 14, Erthygl 26, Erthygl 27, Erthygl 28, ac Erthygl 29.